OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2730 (Cy.234)

## ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg Mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) (Diwygio) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol) sy'n ymwneud â Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy.175) ("Rheoliadau 2009") yn gwneud diwygiadau i amrywiol setiau o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Addysg 1996 (p.56), y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.38), a Deddf Addysg 2002 (p.32) er mwyn adlewyrchu newidiadau fydd yn codi o ganlyniad i gychwyn (ar 12 Hydref 2009) y darpariaethau atal yn Neddf Diogelu Grwpiau Hawdd eu Niweidio 2006 (p.47) ("DDGHN") a chychwyn y darpariaethau newydd (a fewnosodwyd gan DDGHN) yn Neddf yr Heddlu 1997 (c.50).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2009 er mwyn cywiro dau gamgymeriad ynddynt. Mae Rheoliad 8(2)(a)(ii) o destun Saesneg Rheoliadau 2009 yn dyblygu cyfeiriad at Ddeddf yr Heddlu 1997 drwy gyfeirio at "the Police Act 1997" ac yna drwy gyfeirio at "that Act". Felly, mae rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn yn dileu'r cyfeiriad a ddyblygwyd. Mae Rheoliad 8(2)(a)(ii) o destun Cymraeg Rheoliadau 2009 yn hepgor cyfeiriad at Ddeddf yr Heddlu 1997 ac yn cyfeirio yn hytrach at "y Ddeddf honno". Felly mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r geiriau "o Ddeddf yr Heddlu 1997" yn lle'r geiriau "o'r Ddeddf honno".

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 2730 (W.234)

## EDUCATION, WALES

## The Persons Providing Education at Further Education Institutions in Wales (Conditions) (Amendment) Regulations 2009

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Education (Miscellaneous Amendments relating to Safeguarding Children) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/2544 (W.206) ("the 2009 Regulations") make amendments to various sets of regulations made under the Education Act 1996 (c.56), the School Standards and Framework Act 1998 (c.38), and the Education Act 2002 (c.32) to reflect changes that will arise as a result of the commencement (on 12 October 2009) of the barring provisions in the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (c.47) ("the SVGA") and the commencement of new provisions (inserted by the SVGA) in the Police Act 1997 (c.50).

These Regulations amend the 2009 Regulations so as to correct two mistakes in them. Regulation 8(2)(a)(ii) of the English text of the 2009 Regulations duplicates a reference to the Police Act 1997 by referring to the "Police Act 1997" and then by referring to "that Act". Accordingly, regulation 2(1) of these Regulations deletes the duplicated reference. Regulation 8(2)(a)(ii) of the Welsh text of the 2009 Regulations omits a reference to the Deddf yr Heddlu 1997 and instead refers to "that Act". Accordingly in regulation 2(2) of these Regulations the words "o'r Ddeddf honno" are substituted for "o Ddeddf yr Heddlu 1997".

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2730 (Cy.234)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg Mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Hydref 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *13 Hydref 2009* |
| *Yn dod i rym* | *4 Tachwedd 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 136(c), adran 210(7), ac adran 214(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2009 a deuant i rym ar 4 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygiadau i Reoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007**

**2**.–(1) Diwygir Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Saesneg rheoliad 8(2)(a)(ii), ar ôl "the Police Act 1997", hepgorer y geiriau "of that Act".

(3) Yn nhestun Cymraeg rheoliad 8(2)(a)(ii), yn lle "o'r Ddeddf honno" rhodder "o Ddeddf yr Heddlu 1997".

(**1**) 2002 p.32. Mae adran 210 wedi'i diwygio gan adran 21(1), (3)(a) ac (c)(i) a (ii) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2).

(**2**) O.S. 2007/2220 (Cy.175) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy.206)).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 2730 (W.234)

# EDUCATION, WALES

## The Persons Providing Education at Further Education Institutions in Wales (Conditions) (Amendment) Regulations 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *10 October 2009* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *13 October 2009* |
| *Coming into force* | *4 November 2009* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by section 136(c), section 210(7) and section 214(1) and (2) of the Education Act 2002(**1**), and now vested in them make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) The title of these Regulations is the Persons Providing Education at Further Education Institutions in Wales (Conditions) Regulations 2009 and they come into force on 4 November 2009.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendments to the Persons Providing Education at Further Education Institutions in Wales (Conditions) Regulations 2007**

**2**.–(1) The Persons Providing Education at Further Education Institutions in Wales (Conditions) Regulations 2007(**2**) are amended as follows.

(2) In the English text of regulation 8(2)(a)(ii), after "the Police Act 1997", omit the words "of that Act".

(3) In the Welsh text of regulation 8(2)(a)(ii), for "o'r Ddeddf honno" substitute "o Ddeddf yr Heddlu 1997".

(**1**) 2002 c.32. Section 210 is amended by section 21(1), (3)(a) and (c)(i) and (ii) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2).

(**2**) S.I. 2007/2220 (W.175) as amended by the Education (Miscellaneous Amendments relating to Safeguarding Children) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/2544 (W.206)).

*Jane Hutt*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

10 Hydref 2009

Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers

10 October 2009

©h Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2730 (Cy.234)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg Mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) (Diwygio) 2009

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 2730 (W.234)

## EDUCATION, WALES

The Persons Providing Education at Further Education Institutions in Wales (Conditions) (Amendment) Regulations 2009

£4.00

W556/10/09 ON